# Gweminarau – Y Busnes o Ailgylchu

# Y Sector Hamdden ac Adloniant 31 Ionawr 2024

# Holi ac Ateb

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno atebion WRAP Cymru i’r cwestiynau a ofynnwyd gan fynychwyr yn ystod y gweminar Sector Hamdden ac Adloniant. Rydym wedi grwpio’r cwestiynau hyn yn ôl thema, weithiau mae un ateb ar gyfer nifer o gwestiynau.

Cod Ymarfer – Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU

Canllawiau y Busnes o Ailgylchu ar gyfer holl weithleoedd (wrapcymru.org.uk)

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| **Ailgylchu cymysg** | |
| Sut byddai gwastraff ar faes carafanau yn cael ei reoli os cesglir yr holl wastraff o'r gweithle a charafanau unigol gyda'i gilydd? | Nid yw meddianwyr carafanau unigol sy’n cyflwyno eu gwastraff yn uniongyrchol i’w gasglu o’u carafán gan gasglwr gwastraff awdurdodedig yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau.<br>Fodd bynnag, lle mae gan feysydd neu safleoedd carafanau drefniadau casglu gwastraff cymunedol, rhaid i'r gwastraff gael ei wahanu yn unol â'r Rheoliadau. (Gweler adran 5 o'r Cod Ymarfer am fanylion llawn). |
| A yw casglu ailgylchu cymysg i'w ddidoli'n hwyrach yn annerbyniol bellach? | Ydi, ni chaniateir ailgylchu cymysg bellach o dan y deddfau newydd. Mae adran 3 o'r Cod yn egluro'r rhesymeg dros hyn. Rhaid cyflwyno'r holl ddeunyddiau penodedig i'r casglwr gwastraff i'w hailgylchu yn y ffrydiau a ddiffinnir yn y Rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys:<br>• bwyd<br>• papur a cherdyn<br>• metel, plastigion a chartonau<br>• gwydr |
| Oni fydd rhagor o gasgliadau yn arwain at gynnydd mewn allyriadau gan gasglwyr gwastraff gan fod yn rhaid iddynt ymweld â’r maes carafanau yn amlach? | Nid yw cynyddu nifer y ffrydiau deunydd a gesglir yn gorfod golygu cynnydd mewn cerbydau. Gall un cerbyd ag ynddo adrannau ar wahân gasglu'r deunydd neu efallai y bydd casgliadau'n llai aml. Mae hyn yn dibynnu ar yr angen. Cofiwch na fydd cyfanswm y gwastraff i'w gasglu yn cynyddu.<br><br>Dangoswyd bod manteision amgylcheddol cynyddol ailgylchu o ansawdd uwch yn drech nag unrhyw allyriadau ychwanegol yn ymwneud â thrafnidiaeth. (Am fanylion technegol llawn gallwch ddarllen yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol). |

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| Beth yw'r fantais o wahanu yn y man casglu o'i gymharu â didoli ar ôl casglu deunydd ailgylchu cymysg? Gyda'r cynhyrchiad ychwanegol o finiau plastig, oriau ychwanegol ar y ffordd ar gyfer wagenni biniau a'r ffaith bod ein casglwr sbwriel presennol yn ailgylchu 90% ar hyn o bryd yn negyddu unrhyw ostyngiad yn yr ôl troed carbon. | Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno'r gofynion i wahanu yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn modd sy'n hyrwyddo ailgylchu o ansawdd dda. Mae Adran 3 o'r Cod yn egluro hyn yn fanylach.<br><br>Gall y cyflenwad o ddeunyddiau eilaidd o ansawdd uchel sy'n deillio o ailgylchu gwastraff ddarparu cyflenwad gwerthfawr, gwydn a chosteffeithiol o ddeunyddiau crai i ddiwydiannau Cymru. Mae hyn yn fwy tebygol o arwain at ailgylchu "dolen gaeedig" sydd yn gyffredinol â chanlyniadau amgylcheddol gwell nag ailgylchu "dolen agored". |
| Sut gall maes carafanau statig roi hyn ar waith? Mae lle yn brin yn yr unedau. Mae ein darparwr gwasanaeth casglu sbwriel yn ailgylchu, a yw hyn yn bosibl ar ôl y dyddiad newid ym mis Ebrill neu a fydd angen gwahanu eitemau wedyn? | Os cesglir y deunyddiau yn gymunedol o faes carafanau, rhaid cyflwyno'r holl ddeunyddiau penodedig i'r casglwr gwastraff ar wahân i'w hailgylchu. Ni ellir ei gyflwyno'n gymysg i'w ddidoli'n ddiweddarach. Byddai angen i'r dull a ddefnyddir i wneud hyn o fewn yr unedau gael ei drefnu fesul achos. Mae'n bosibl dod o hyd i finiau gyda gwahanol adrannau neu rai sy'n pentyrru i leihau eu hôl troed. |
| **Ffrydiau deunyddiau** | |
| A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer addysgu ymwelwyr/staff ynglŷn â'r pwnc dryslyd o gartonau diodydd/bwyd, y gall rhai ohonynt fod yn ailgylchadwy neu beidio? | Mae posteri ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Busnes o Ailgylchu Cymru sy'n rhestru'n glir pa eitemau y gellir eu hailgylchu. Byddem yn awgrymu cynnwys gwybodaeth ailgylchu ar ddeunyddiau a ddarperir gennych ar gyfer ymwelwyr a staff. |
| Mae gennym sgip cynnal a chadw sy'n casglu gwastraff garddio/plastig pren. A oes angen i hwn fod ar wahân? | Mae angen gwahanu'r holl ffrydiau deunydd tebyg i gartrefi a restrir i'w casglu, ond nid yw hyn yn cynnwys gwastraff adeiladu na gwastraff gardd. Mae Atodiadau 1-6 o'r Cod yn nodi pa ddeunyddiau ac eitemau sydd angen eu gwahanu i'w hailgylchu. |
| A oes rhaid gwahanu papur a cherdyn? | O dan y Rheoliadau gellir casglu'r deunyddiau hyn gyda'i gilydd. Fodd bynnag, dylech wirio gyda'ch casglwr gwastraff sut yr hoffai iddynt gael eu cyflwyno. |
| Ydy'r ailgylchu i fynd yn syth i'r bin? H.y. peidio â defnyddio bagiau plastig yn y bin, y gellir eu codi â gwastraff ynddo? | Gellir defnyddio bagiau mewn biniau i gasglu deunyddiau ar wahân. |
| A oes hawl gennym o hyd i gael bin gwastraff cyffredinol na ellir ei ailgylchu? | Ydy, mae hyn yn dderbyniol ar gyfer deunyddiau na ellir eu hailgylchu. |
| Bydd angen i ni gyflwyno biniau wedi'u rhannu newydd i'n hardaloedd sy'n wynebu cwsmeriaid yn ein hadeiladau (h.y. derbynfa, bwyty, arcedau ac ati) – a yw'n rheol bod angen bin wedi'i rannu yn lle pob bin gwastraff cyffredinol, neu a yw'n iawn cael biniau gwastraff cyffredinol o hyd ond arnynt, cyfeirio | Mae'n arfer da gosod bin gwastraff cyffredinol wrth ymyl unrhyw fin ailgylchu bob amser er mwyn lleihau halogiad y ffrwd ailgylchu â gwastraff na ellir ei ailgylchu. Bydd angen i chi fonitro eich systemau i sicrhau eu bod yn effeithiol wrth alluogi ailgylchu. |

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| cwsmeriaid at finiau wedi'u rhannu (h.y. peidio â gosod biniau newydd yn eu lle ar sail 1 am 1) | Nid yw'r Rheoliadau yn nodi'r gofynion ar gyfer cyfluniadau biniau – dim ond ar y pwynt cyflwyno y mae angen gwahanu (cyfeiriwch at baragraffau 7.14 – 7.16 yn y Cod Ymarfer) |
| A oes rhaid tynnu caeadau o boteli, tuniau a chynwysyddion ac a oes angen "rinsio" yr eitemau hyn cyn eu rhoi yn y bin? | Gellir cadw caeadau ymlaen.<br>Mae'n well rinsio eitemau pan fo hynny'n ymarferol. |
| Er bod modd ailgylchu'r cardbord o godennau coffi, mae'r codennau eu hunain yn nodi na ellir gwneud hynny. A fydd hyn yn mynd yn y gwastraff cyffredinol? | Bydd angen rhoi eitemau na ellir eu hailgylchu mewn bin gwastraff cyffredinol. |
| Ble mae baw ci yn mynd? | I'r bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu |
| Beth am fatris – ydyn nhw'n cael eu binio ar wahân? | Nid yw batris o fewn cwmpas y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle. Fodd bynnag, maent yn dod o dan rai rheoliadau presennol. Rhaid i unrhyw ddosbarthwyr neu adwerthwyr sy'n gwerthu neu'n cyflenwi mwy na 32kg o fatris y flwyddyn ddarparu gwasanaeth cymryd yn ôl. Gallwch ddarllen y manylion llawn yma: [Rheoliadau: batris gwastraff – GOV.UK (www.gov.uk)] |
| **Gwastraff bwyd** | |
| Beth sy'n digwydd i wastraff bwyd llai na 5KG?<br>Os ydym yn cynhyrchu llai na 5kg o wastraff bwyd, sut ydym yn cael gwared arno? | Gall busnesau sy'n cynhyrchu llai na 5kg o fwyd ddewis cael casgliad gwastraff bwyd o hyd, ond nid yw'n ofynnol. Os nad oes gennych gasgliad gwastraff bwyd, yna dylid rhoi bwyd yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.<br><br>Os yw eich cwsmeriaid yn cael gwared ar wastraff bwyd yn eich busnes, yna mae angen cynnwys hyn yn yr amcangyfrif o 5kg. |
| Nid wyf yn cynhyrchu unrhyw wastraff bwyd fel busnes felly pa gyfrifoldeb sydd gennyf o ran rheoli gwastraff bwyd | |
| Mae gen i faes gwersylla teithiol. Nid oes gennyf gaffi na siop. | Os ydych yn cael gwared ar wastraff ymwelwyr neu gwsmeriaid – e.e. trwy ddarparu biniau ar faes gwersylla, yna mae'r rheoliadau'n berthnasol. |
| Os nad ydych yn cynhyrchu gwastraff bwyd e.e. trwy gaffi ond mae eich cwsmeriaid rheolaidd (perchnogion carafanau) yn paratoi prydau bwyd ac yn cynhyrchu gwastraff bwyd, a oes angen i chi gasglu'r gwastraff hwnnw ar wahân? | Oes, os ydych yn cael gwared ar wastraff perchnogion carafanau – e.e. trwy ddarparu biniau cymunedol ar y safle, yna bydd y rheoliadau'n berthnasol a bydd angen casglu gwastraff bwyd (os yw dros 5kg fesul 7 diwrnod) ar wahân. |
| Rydym yn rhedeg Byncws a Maes Gwersylla ond DIM staff ar y safle. Mae defnyddwyr yn gofalu amdanynt eu hunain ac yn hunan-arlwyo. Sut gallwn ni reoli beth maen nhw'n ei wneud? Yn gyffredinol byddai gwastraff bwyd yn llai na 5kg felly beth ydyn ni/nhw'n ei wneud ag ef? | Os ydych yn darparu casgliad gwastraff ar gyfer eich cwsmeriaid, mae'r rheoliadau'n berthnasol p'un a oes gennych staff ar y safle ai peidio. Byddem yn argymell cynnwys gwybodaeth hygyrch am sut i ddefnyddio'r system ailgylchu a sefydlwch. Bydd angen i chi fonitro hyn i sicrhau ei fod yn effeithiol.<br><br>Os yw gwastraff bwyd yn llai na 5kg bob 7 diwrnod, yna gall fynd i mewn i wastraff na ellir ei ailgylchu (neu gallwch ddewis cael casgliad ar wahân). |

| **Cwestiwn** | **Ateb** |
|---|---|
| | |
| Rydym yn barc gwledig mawr gyda nifer o swyddfeydd lloeren o amgylch y parc. A oes angen i'r swyddfeydd llai ailgylchu bwyd hefyd? | Bydd angen i chi wybod ble mae gwastraff yn codi ar eich safle. Os oes gwastraff bwyd yn cael ei greu yn y swyddfeydd lloeren ar yr un safle yna bydd angen ei wahanu i'w gyflwyno ar wahân i'ch casglwr gwastraff. |
| Oes rhaid rhoi bwyd yn y bin heb fag?<br>Os felly, bydd hyn yn denu fermin i'r safle gan ein bod yng nghefn gwlad.<br>Onid yw'n fater iechyd a diogelwch, siawns na ellir disgwyl inni fynd drwy'r biniau | Gellir defnyddio bagiau leinio bin mewn biniau gwastraff bwyd. Gwiriwch gyda'ch casglwr gwastraff am arweiniad ar ba fagiau i'w defnyddio, er enghraifft, bagiau leinio compostadwy.<br><br>Nid oes disgwyl ichi ddidoli trwy finiau, ond i ddarparu system sy'n effeithiol i alluogi defnyddwyr i ailgylchu. |
| A all y gwastraff bwyd fod mewn bagiau ailgylchu a roddir yn y prif gynhwysydd fel yn y gwastraff domestig presennol, neu a oes angen ei dipio'n "amrwd"? Bydd yr arogl yn yr haf yn ofnadwy! | |
| Gawn ni gompostio gwastraff bwyd? | Mae'n bosibl y byddwch yn gallu compostio neu gynnal treulio anaerobig ar gyfer eich gwastraff bwyd eich hun ar eich safle ar yr amod eich bod yn bodloni gofynion Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 ac unrhyw eithriadau perthnasol, a gofynion y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 a Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, ac unrhyw reoliadau perthnasol eraill. |
| A fydd disgwyl i berchnogion meysydd carafanau ddarparu cadis gwastraff bwyd i'r holl garafanau/cabanau bach/cabanau gwyliau ar y safle? | Perchenogion y safle sy'n gyfrifol am sut mae safle'n casglu'r deunyddiau penodedig. Nid oes unrhyw ffordd benodol o gasglu'r deunyddiau.<br>Nid yw'r Rheoliadau yn nodi'r gofynion ar gyfer cyfluniadau biniau – dim ond ar y pwynt cyflwyno y mae angen gwahanu (cyfeiriwch at baragraffau 7.14 – 7.16 yn y Cod Ymarfer). |
| **Halogiad a gorfodi** | |
| Fel maes gwersylla sut allwn ni fod yn gyfrifol am yr hyn y mae gwesteion yn ei roi yn y biniau gwastraff? Rydym eisoes yn ailgylchu cardbord, gwydr a phlastig ond yn gyson yn dod o hyd i'r eitemau anghywir yn y biniau anghywir! | Ni fydd angen i chi ddidoli bagiau o ddeunyddiau ailgylchadwy i sicrhau nad ydynt wedi'u halogi.<br><br>Bydd angen i chi sicrhau bod y biniau ailgylchu wedi'u labelu'n glir, bod y system ailgylchu sydd ar waith yn cael ei chyfleu i staff ac ymwelwyr a bod digon o gynwysyddion yn cael eu darparu i'ch staff a'ch gwesteion eu ddefnyddio'n gywir.<br><br>Fe'ch cynghorir i fonitro effeithiolrwydd eich system ailgylchu a gwneud unrhyw newid sydd ei angen i sicrhau ei bod yn gweithio'n dda. |
| Sut i ymdrin â halogiad. A yw'n drosedd i'w gasglu os yw gwesteion yn cymysgu ffrydiau yn anfwriadol | |
| A fydd perchnogion meysydd carafanau/gwersylla yn cael eu dal yn gyfrifol am weithredoedd eu cwsmeriaid sydd mewn sawl ffordd yn trin eu carafán/uned fel eu cartref eu hunain? | |
| Beth fydd yn digwydd os na fydd eich cleientiaid yn ailgylchu yn ôl yr angen? | |
| Meysydd gwersylla: A oes disgwyl i ni fynd trwy fagiau bin pob gwestai i wirio? | |

<table>
<tr><th>Cwestiwn</th><th>Ateb</th></tr>
<tr><td>O ran maes carafanau, sut mae rheoli’r hyn y mae perchnogion carafanau unigol yn ei roi mewn gwastraff cyffredinol?</td><td rowspan="5">Fe'ch cynghorir i siarad â'ch casglwr gwastraff ynghylch goddef halogiad a'r gweithdrefnau sydd ganddo ar gyfer ymdrin â halogiad.<br><br>Mae'r Cod Ymarfer (paragraff 7.37) yn cynnwys mwy o fanylion am y camau y cynghorir chi i'w cymryd mewn perthynas â halogiad.</td></tr>
<tr><td>Mae gennym faes carafanau bach, perchnogion yw’r mwyafrif a rhywfaint o osod. Er y gallwn orfodi staff DIM OND annog/addysgu cwsmeriaid y gallwn ac nid oes gennym unrhyw fodd o orfodi hyn gyda'n cwsmeriaid. Sut allwn ni orfodi?<br><br>Er mwyn iddo weithio i siop tecawê syml, gallai fod angen hyd at 5 bin ailgylchu y byddai'n rhaid i gwsmeriaid eu cael ym mhob carafán, sy'n annhebygol o ddigwydd. Onid yw hon yn ddeddfwriaeth annoeth i'w chymhwyso i feysydd carafanau? Ni allwn orfodi ac mae’n anymarferol i unigolion ymdopi â hyn.</td></tr>
<tr><td>Rwy’n bryderus iawn am groeshalogi a fydd y tu hwnt i’m rheolaeth. Gallaf sicrhau bod fy holl finiau wedi'u labelu'n dda ond ni allaf warantu bod fy nghleientiaid yn dilyn y canllawiau felly beth ddylwn ei wneud amdano? Ni allaf ofyn i'm gweithwyr ddidoli'r sbwriel ymhellach oherwydd y risg Iechyd a Diogelwch.</td></tr>
<tr><td>Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn rhoi cebab wedi hanner ei fwyta yn y bin ailgylchu gwydr?</td></tr>
<tr><td>A fydd fy musnes yn cael ei gosbi os bydd cwsmeriaid mewn parc mawr yn defnyddio'r biniau anghywir ac yn "halogi" unrhyw un o'r ffrydiau. Nid wyf yn teimlo y gallaf ofyn i’m staff ymdrin â hyn wedyn drwy ail-ddidoli’r gwastraff eu hunain. Mae gennyf ddyletswydd gofal tuag at fy staff fy hun yn y sefyllfa hon.</td></tr>
<tr><th colspan="2">Cytundebau</th></tr>
<tr><td>Os oes gennym gontract dwy flynedd gyda'n cyflenwr gwastraff a dim ond ychydig fisoedd sydd gennym i roi’r newid sylfaenol hwn ar waith, bydd hyn yn achosi rhai problemau cyfreithiol gwirioneddol.</td><td rowspan="2">Mae'n ofynnol i bob casglwr gwastraff ddilyn y rheoliadau newydd ac felly os nad ydynt ar hyn o bryd yn gwahanu deunyddiau i'w hailgylchu yn unol â'r rheoliadau, bydd angen iddynt ddiwygio eu gwasanaeth. Rydym yn awgrymu eich bod yn trafod hyn gyda'ch contractwr gwastraff.</td></tr>
<tr><td>Os ydym mewn contract gyda chwmni sbwriel, gan fod y newidiadau hyn yn cael eu gorfodi arnom gan y Llywodraeth, a fydd hyn yn negyddu contract presennol ac yn caniatáu inni newid darparwyr.</td></tr>
<tr><td>A ydych yn meddwl bod yr amserlen a roddwyd i roi’r ddeddfwriaeth hon ar waith yn ddigonol? Bydd angen i gasglwyr dŵr preifat newid seilwaith ac offer, cerbydau ac ati yn sylfaenol.</td><td>Mae LlC wedi ymgynghori’n helaeth ar y diwygiadau hyn yn 2013-14 ac eto yn 2019, a 2022 a thrwy gydol y cyfnod hwn wedi ymgysylltu’n helaeth ac yn rheolaidd â’r sector gwastraff a rhanddeiliaid ehangach i sicrhau ymwybyddiaeth barhaus o’r newidiadau sydd i ddod.</td></tr>
<tr><th colspan="2">Casgliadau</th></tr>
</table>

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| Mae gan fy nghyngor un o'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru ac nid yw'n gwahanu yn y man casglu. Felly pam mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod yn rhaid i ailgylchu gael ei wahanu cyn casglu ar gyfer busnesau? | Bydd casglu deunydd ar wahân yn sicrhau gwell ansawdd y deunydd a gesglir i'w ailgylchu gyda chyn lleied â phosibl o ddeunydd halogedig yn cael ei anfon i'w waredu. Mae'r mwyafrif o gynghorau yng Nghymru (16 allan o 22) yn casglu deunydd sydd wedi'i wahanu mewn ffordd debyg i'r hyn sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth ac mae gan sawl un arall gynlluniau i newid y dull hwn yn y dyfodol agos. |
| Ar hyn o bryd, nid yw ein cyngor yn casglu gwastraff yn y man casglu yn yr un ffordd ag yr ydych wedi disgrifio bod yn rhaid iddo gael ei wahanu. Er enghraifft, yn y maes hwn, maen nhw'n casglu papur a cherdyn gyda'i gilydd, ond maen nhw'n casglu metel a gwydr gyda'i gilydd ac yna plastig ar wahân (nid yw hynny'n cynnwys TetraPak na chwpanau coffi). A fydd pob cyngor bellach yn gweithredu'r un casgliadau? | Bydd yn ofynnol yn gyfreithiol i bob casglwr gwastraff, y cyngor a'r sector preifat, gydymffurfio â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd a darparu casgliad ar wahân ar gyfer y deunyddiau penodedig.<br>Ni chaniateir casgliad cymysg o ddeunyddiau ailgylchadwy sych o weithleoedd mwyach. Ni fyddant yn gallu casglu'r holl ddeunyddiau wedi'u cymysgu yng nghefn un lori. |
| Ar hyn o bryd rydym yn gwahanu ein prif finiau gwastraff parc (ar gyfer pob cwsmer yn ein parc) yn gardbord/caniau, gwydr a gwastraff cyffredinol. A oes angen inni gyflwyno bin gwastraff bwyd yn awr? Nid oes gennym unrhyw fath o safle bwyd yn ein parc. Hefyd, ar hyn o bryd mae hyn i gyd yn cael ei gludo i ffwrdd mewn un lori a'i gymysgu gyda'i gilydd beth bynnag felly mae'n ymddangos ychydig yn wrthgynhyrchiol! | Bydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i bob casglwr gwastraff, y cyngor a'r sector preifat, gydymffurfio â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd a darparu casgliad ar wahân ar gyfer y deunyddiau penodedig.<br><br>Os ydych chi'n cyflwyno mwy na 5kg o wastraff bwyd bob 7 diwrnod (p'un a oes gennych chi siop fwyd ar y safle ai peidio) mae angen casgliad gwastraff bwyd.<br><br>Ni chaniateir casgliad cymysg o ddeunyddiau ailgylchadwy sych o weithleoedd mwyach. Ni fyddant yn gallu casglu'r holl ddeunyddiau wedi'u cymysgu yng nghefn un lori. Gall casglwyr ddewis defnyddio lorïau â sawl adran |
| Dim ond 2 fis sydd gennym – pryd mae'r strwythurau ffrydiau ar wahân yn mynd i gael eu cyflwyno gan gynghorau unigol? | Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ymwybodol o'r newidiadau yn y rheoliadau. Byddem yn awgrymu eich bod yn cysylltu â nhw eto a gofyn am y tîm gwastraff masnachol a ddylai allu dweud wrthych beth yw eu cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth newydd. |
| Mae contractwyr gwastraff ar y cyfan yn gwneud un daith yr wythnos i barciau/safleoedd gwyliau ac yn casglu'r holl wastraff ac ailgylchu ar unwaith – gan ddidoli llawer ohono yn ôl yn eu depo. Rwy'n bryderus y bydd hyn yn creu llawer mwy o deithiau ar y lorïau i ac o safleoedd busnes. | Er mwyn osgoi teithiau niferus, gall casglwyr gwastraff ddewis defnyddio cerbydau aml-adran i gasglu'r nifer o ddeunyddiau gwahanol mewn un daith. |
| **Arall** | |
| Fel maes carafanau byddai gennyf ddiddordeb yn natur a maint y dirwyon. Byddai'n braf bod yn ymwybodol pa mor fawr y gallent fod fel y gallem annog cydymffurfiaeth. | Os bydd diffyg cydymffurfio, gall CNC roi cyngor ac arweiniad fel ymateb cyntaf lle bo'n briodol. Fodd bynnag, ar gyfer digwyddiadau mwy difrifol neu ddiffyg cydymffurfio parhaus, mae gan CNC bwerau i fabwysiadu ymagwedd fwy cadarn pan fo angen, gan |

<table>
<tr><th>Cwestiwn</th><th>Ateb</th></tr>
<tr><td></td><td>gynnwys sancsiynau sifil (cosbau ariannol sefydlog ac amrywiol) ac achosion troseddol.<br>Bydd y cosbau ariannol penodedig naill ai'n £300 neu £500 yn dibynnu ar y toriad.</td></tr>
<tr><td>Os bydd angen i ni ddarparu mapiau ar-lein a all LlC ganiatáu defnydd am ddim o fapiau ailgylchu</td><td>Nid oes gofyniad i ddarparu mapiau ar-lein, awgrym ydoedd i gynorthwyo defnyddwyr y safle i ddod o hyd i gyfleusterau ailgylchu.</td></tr>
<tr><td>Am ba mor hir ydych chi’n rhagweld y bydd y rheoliadau newydd hyn yn parhau heb eu newid? A ydych yn rhagweld y bydd amodau didoli mwy penodol yn cael eu gweithredu yn y dyfodol? Beth allwn ni ei wneud i wneud ein man gwastraff newydd yn addas at y dyfodol</td><td>Mae camau pellach o’r gyfraith yn yr arfaeth gyda LlC yn nodi eu bod yn bwriadu cyflwyno gofyniad fesul cam i wahanu’r holl eitemau trydanol ac electronig gwastraff bach a’r holl decstilau hyd at 2 a 3 blynedd ar ôl y dyddiad dod i rym gwreiddiol. Gweler y Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad Rheoliadau Ailgylchu (20 Gorffennaf 2023) | LLYW.CYMRU</td></tr>
<tr><td>Mae gan fy eglwys leol faes parcio cyhoeddus. Mae biniau sbwriel wedi'u lleoli ac yn amlwg, nid oes gennym unrhyw reolaeth dros yr hyn sy'n cael ei roi ynddynt. A oes rhaid gwahanu'r gwastraff hwn wedyn?</td><td rowspan="3">Biniau sbwriel<br>Nid yw rheoliadau ailgylchu yn y gweithle yn berthnasol i finiau sbwriel awdurdodau lleol. Fodd bynnag, er mwyn ymagwedd gyson ac arfer da, argymhellir bod biniau sbwriel ar wahân ar gyfer eitemau y gellir eu hailgylchu yn cael eu darparu mewn unrhyw leoliadau lle mae biniau sbwriel wedi'u lleoli fel y gall Awdurdodau Lleol, lle bynnag y bo modd, drefnu i sbwriel gael ei ailgylchu.<br><br>Mae'n ofynnol i bob gweithle gyflwyno'r deunyddiau rhestredig ar wahân i'w hailgylchu. Mater i bob gweithle yw penderfynu sut y gallant wahanu'r deunyddiau hyn yn fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, gall cael biniau ailgylchu wrth ymyl biniau sbwriel fod yn ffordd dda o wneud hyn.<br>Ni fyddai casglu’r holl wastraff mewn bin sbwriel gweddilliol a gwneud unrhyw ymdrech i wahanu’r deunyddiau gofynnol ar gyfer ailgylchu yn cyd-fynd â’r rheoliadau newydd.</td></tr>
<tr><td>A oes angen newid biniau sbwriel cyffredinol ar ein safle nawr i finiau ailgylchu? Yr wyf yn sôn am finiau sbwriel bach a welwch yn eich trefi, parciau lleol ac ati.</td></tr>
<tr><td>Rydym yn dirfeddiannwr mawr ac eisiau gwirio beth yw’r disgwyliad ynghylch gwahanu gwastraff/sbwriel mewn ardaloedd awyr agored a mynediad agored mawr yng Nghymru sy’n anodd eu rheoli.</td></tr>
<tr><td>Gyda chynnydd yn nhreth y gyngor, codiadau mewn cyfraddau busnes a threth ar osodiadau gwyliau, a fydd unrhyw gymorth ariannol ar gael i fusnesau i ymdopi â’r newidiadau hyn neu a yw’n gost arall y mae angen inni ei hamsugno.</td><td>Nid oes cymorth ariannol ar gael.<br><br>Mae mathau eraill o gymorth ar gael i roi’r newidiadau ar waith (amrywiaeth o ganllawiau, offer, megis canllawiau sector-benodol ac astudiaethau achos arfer gorau, arwyddion y gellir eu lawrlwytho, asedau cyfathrebu). Er y gallai busnesau wynebu costau buddsoddi cychwynnol, rhagwelir y bydd y Rheoliadau yn cefnogi’r mwyafrif o weithleoedd dros amser i ddargyfeirio gwastraff o’r ffrwd weddilliol a lleihau faint o wastraff y maent yn ei gynhyrchu, gan arwain at gostau rheoli gwastraff is yn gyffredinol. Gweler yr enghreifftiau a roddir yn yr astudiaethau achos, Canton Food Market a Sinclair Motors Ffilmiau</td></tr>
</table>

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| | Astudiaeth Achos Ailgylchu yn y Gweithle – YouTube |
| **Cyfathrebu** | |
| Nid yw ein casglwr gwastraff yn darparu biniau o liwiau gwahanol felly a yw arwyddion a sticeri ar gyfer biniau priodol yn ddigonol? | Ydynt, gweler yr adnoddau sydd ar gael Ailgylchu yn y Gweithle – Gweminarau (wrapcymru.org.uk) i gael posteri i'w lawrlwytho am ddim |
| A fydd pob awdurdod lleol yn uno i gael biniau ailgylchu o'r un lliw? | Mae llawer o awdurdodau lleol Cymru eisoes yn defnyddio lliwiau cenedlaethol Ailgylchu a symbolau ailgylchu Cymru ond nid oes gofyniad iddynt wneud hynny. |
| A fyddai WRAP yn annog cael pob un o'r ffrydiau ailgylchu gwahanol ar gyfer pob ffrwd ailgylchu ar gael ym mhob uned llety hunanarlwyo unigol? | Byddai hyn yn arfer gorau ond cyfrifoldeb perchennog y busnes fyddai penderfynu ar y ffordd orau o gasglu'r ffrydiau deunydd penodedig. |

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach anfonwch e-bost at WalesRecycles@wrap.org.uk neu CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk.